4.4.18

CYNRYCHIOLAETH DYNEIDDWYR AR CYSAGau.

Penderfynwyd yn ystod cyfarfod Tymor yr Hydref CCYSAGauC i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, ar fater cynrychiolaeth dyneiddwyr ar y CYSAGau. Roedd CCYSAGauC wedi derbyn nifer o ymholiadau ynglŷn a ddylid cynnig lle i Ddyneiddwyr ar Grŵp A, neu fel aelodau cyfetholedig. Cododd Kathy Riddick o Ddyneiddwyr Cymru'r mater yma hefyd yn ystod y cyflwyniad a roddodd yn y cyfarfod ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae CCYSAGauC wedi awgrymu sawl tro i Lywodraeth Cymru bod angen adolygu Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 er mwyn iddo fod yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol. Daeth yr angen yma yn fater o frys oherwydd yr her i'r CYSGau lleol gan Gymdeithas Dyneiddwyr Prydain sy'n ceisio aelodaeth o Bwyllgor A ar y CYSAGau lleol. Ar hyn o bryd, gwaherddir hyn gan Baragraff 103 o Gylchlythyr 10/94. Mae Cymdeithas Dyneiddwyr Prydain yn enwi deddfwriaeth Hawliau Dynol, sydd yn ôl eu honiad yn rhoi'r hawl i aelodaeth ar Bwyllgor A. Mae hi'n ymddangos felly bod gwrthddweud uniongyrchol rhwng geiriad Cylchlythyr 10/94 a'r Deddfau Addysg a enwir a chanfyddiadau diweddar y Llysoedd o blaid heriau Hawliau Dynol.

I roi'r cyngor gorau posib i CYSAGau lleol ar y mater yma mae CCYSAGauC yn edrych i Lywodraeth Cymru am ddatganiad pendant ar y mater yma a'u canllaw ynglŷn â pha gyfraith sy'n cael blaenoriaeth, Deddf Addysg 1944 a Deddf Diwygio Addysg 1988, sy'n gwahardd *Cynrychiolwyr neu systemau cred, fel dyneiddiaeth (pennwyd yn 10/94),* neu ddeddfwriaeth Hawliau Dynol sy'n ymddangos yn rhoi hawliau i gefnogwyr systemau cred o'r fath ac i ganiatáu iddynt gael aelodaeth ar Bwyllgor A.

Gofynnodd Cadeirydd CCYSAGauC i Lywodraeth Cymru roi sylw brys i hyn gan weithredu arno. Mae CCYSAGauC wedi gofyn am ddatganiad pendant a diffiniol ar sefyllfa aelodau systemau cred ynglŷn ag aelodaeth Pwyllgor A o'r CYSAGau lleol.

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, CCYSAGauC drwy gydnabod 'y bu mwy o ganolbwyntio ar ofynion a llywodraethu Cyd-addoli, a rôl ac aelodaeth CYSAGau, ac os yw arferion a threfniadau presennol yn cydymffurfio gyda'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) a Deddf Cydraddoldeb 2010.'

Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod Cylchlythyr 10/94 'yn ddogfen anstatudol a'i bwriad oedd rhoi canllaw ar addysgu addysg grefyddol a chyd-addoli mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig.' Er hynny, mae wedi rhoi cyfarwyddyd i'w swyddogion i adolygu'r maes yma 'yn cynnwys canolbwyntio ar faterion penodol am y ddeddfwriaeth a pha mor gydnaws yw'r gofynion presennol gyda deddfwriaeth hawliau dynol.'

Ers hynny, mae CCYSAGauC wedi gofyn fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r agwedd benodol yma o'r adolygiad ac maent ar hyn o bryd yn aros am y canlyniad.